OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 784 (Cy.95)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *18 Mawrth 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 29 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso ac effaith**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2003, a deuant i rym ar 1 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Diwygir Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 1992(**2**) yn unol â darpariaethau canlynol y Rheoliadau hyn.

**Diwygio paragraff 47A yn Atodlen 2**

**2.** Diwygir paragraff 47A o Atodlen 2 (Cwynion) yn unol â'r paragraffau canlynol —

(a) ym mharagraff 6(b)(ii) yn lle'r gair "three", rhodder y gair "two"; a

(b) ym mharagraph (6)(c) yn lle'r ffigur "10", rhodder y ffigur "20".

(**1**) 1977 p.49; *gweler* adran 128(1), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ("Deddf 1990") adran 26(2)(g) a (i), i gael y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".
Diwygiwyd adran 29(1) gan O.S. 1985/39, erthygl 7(3); gan Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17), adran 2(1), Atodlen 1, paragaff 18; gan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17) ("Deddf 2002"), adrannau 2(5) a 37(1), Atodlen 2, Rhan 1, paragraffau 1, 3(1)(2) a 3(a)(b), Atodlen 8, paragraffau 1 a 2; gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) 1997 (p.46), adran 41(10), (12), Atodlen 2, paragraff 8 ac Atodlen 3, Rhan 1; Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983 (p.41), adran 14, Atodlen 6, paragraffau 2(1) a (2); gan Ddeddf y Gwasanaethu Iechyd 1980 (p.53), adran 7; Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p.15) ("Deddf 2001"), adran 23(1) a (2); Deddf Feddygol 1983 (p.54) adran 56(1), Atodlen 5, paragraff 16(a), a Deddf Feddygol (Perfformiad Proffesiynol) 1995 (p.51) adran 4, Atodlen 1, paragraff 28(b).
Diwygiwyd Adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 65(2); gan Ddeddf Iechyd 1999 (p.8), adran 65(1), Atodlen 4, paragraffau 4, 37(1) a 6; gan Ddeddf 2001, adran 67(1), Atodlen 5, Rhan 1, paragraffau 5(1) a 13(b) a chan Ddeddf 2002, adran 6(3)(c).
O ran Cymru, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 29 a 126(4), o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo, O.S. 1999/672.

(**2**) O.S. 1992/635, yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1996/702 sy'n mewnosod paragraffau 47A a B yn Atodlen 2.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*

18 Mawrth 2003

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 1992 sy'n rheoleiddio'r telerau ynghylch darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977.

Mae Rheoliad 2 yn cynnwys darpariaethau sy'n diwygio'r cyfnod o amser sydd gan feddygon i ymateb i gwynion a wneir gan neu ar ran cleifion neu gleifion blaenorol o dan drefn gwyno'r practis. Caiff yr amser a ganiateir i feddygon gydnabod cwynion ar lafar neu'n ysgrifenedig ei leihau o dri diwrnod i ddau ddiwrnod (gan eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith a gwyliau banc), tra caiff yr amser a ganiateir i roi i achwynydd grynodeb ysgrifenedig o ymchwiliadau a chasgliadau ei gynyddu o 10 i 20 diwrnod gwaith (gan eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith a gwyliau banc).